# Cofnodion a gadarnhawyd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | **Cyfarfod Bwrdd CNC – Sesiwn Gyhoeddus**<br>**Mynychwyr yn bresennol ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd a thros Microsoft Teams** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 23 Medi 2021 |
| **Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol:** | Syr David Henshaw (Cadeirydd)<br>Clare Pillman, Prif Weithredwr<br>Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd<br>Karen Balmer<br>Julia Cherrett<br>Geraint Davies<br>Paul Griffiths<br>Zoë Henderson<br>Yr Athro Calvin Jones<br>Mark McKenna<br>Dr Rosie Plummer<br>Yr Athro Peter Rigby |
| **Aelodau o'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:** | Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol<br>Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu<br>Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol<br>Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol<br>Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau |
| **Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:** | Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (yr holl eitemau)<br>Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol (Eitem 6)<br>Sioni Davies, Cynghorydd, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol (Eitem 6)<br>Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch (Eitem 7)<br>Julia Allen, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Adnoddau Dynol (Eitem 8)<br>Steve Burton, Pennaeth Rheoli Pobl (Eitem 8)<br>Rhian Jardine, Pennaeth Gwasanaeth Cynghori Cynllunio Datblygu (DPAS) a Gwasanaethau Morol (Eitem 9)<br>Andrea Winterton, Rheolwr Gwasanaethau Morol (Eitem 9)<br>Pete Jordan, Rheolwr DPAS (Eitem 9)<br>Mary Lewis, Rheolwr Mannau Cynaliadwy Tir a Môr (Eitem 9) |

| | |
|---|---|
| **Arsyllwyr CNC:** | Rhian Jardine, Pennaeth DPAS a Gwasanaethau Morol<br>Meinir Wigley, Arweinydd Tîm Cyfathrebu Integredig<br>Kate Evans, Rheolwr, Materion Cyhoeddus/Ysgrifennydd Personol i'r Prif Weithredwr<br>Jacqueline Kedward, Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **Arsyllwyr Cyhoeddus:** | Gareth Wardell<br>Steve Griffiths, Cyfarwyddwr BASC Cymru |
| **Datganiadau:** | Dr Rosie Plummer – Aelod o Fwrdd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Ymddiriedolwr Plantlife, Ymddiriedolwr Canolfan y Dechnoleg Amgen, Perchennog eiddo ar lan afon mewn ACA |
| **Ymddiheuriadau:** | Catherine Brown |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Natalie Williams<br>Jocelyn Benger |

## Eitem 1. Agor y Cyfarfod

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb. Gwnaed datganiadau o fuddiant fel y nodwyd uchod.

## Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Log Gweithredu

### 2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf

2. Adolygwyd a chytunwyd ar gofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf .

### 2B. Adolygu'r Log Gweithredu Cyhoeddus

3. Adolygwyd y log gweithredu.

## Eitem 3: Diweddariad gan y Cadeirydd

4. Gwnaeth y Cadeirydd sylw mai dyma'r cyfarfod cyntaf wyneb yn wyneb ar gyfer aelodau'r Bwrdd ers dechrau'r pandemig. Nododd y Cadeirydd ei fod yn edrych ymlaen at groesawu aelodau'r cyhoedd yn bersonol eto mewn cyfarfod yn y dyfodol.

5. Croesawyd agenda newydd Llywodraeth Cymru, a nodwyd bod trafodaethau ar yr amgylchedd yn mynd rhagddynt gyda Gweinidogion.

## Eitem 4: Adroddiad y Prif Weithredwr

6. Cyflwynwyd hwn yn ystod sesiwn breifat cyfarfod y Bwrdd.

## Eitem 5: Adroddiadau Diweddaru y Pwyllgorau

7. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) 2020/21 gan Karen Balmer ar ran Cadeirydd ARAC. Derbyniwyd 12 adroddiad archwilio mewnol amrywiol yn ystod y flwyddyn ac o'r rhain, roedd un farn yn Sylweddol, tair yn Gyfyngedig a'r gweddill yn Gymedrol. Yn sgil hynny, pennwyd barn gyffredinol o sicrwydd cyfyngedig

ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Roedd ARAC yn pryderu am y diffyg cysondeb a rheolaeth a mynd i'r afael â phryderon. Cynghorwyd y Bwrdd i barhau i bryderu, er bod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud, dan arweiniad y Tîm Gweithredol, yn enwedig mewn meysydd fel yr Adolygiad Sylfaenol a'r gwaith Tair Llinell Amddiffyn. Ar ran ARAC, diolchwyd i'r Tîm Archwilio, yr Ysgrifenyddiaeth a phawb a gyfrannodd at yr archwiliadau a chyflawni'r Cynllun Archwilio.

**WEDI'I GYMERADWYO: Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol ARAC 2020/21.**

8. Darparodd Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau (PaRC) ddiweddariad llafar ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi. Roedd cynnydd yn cael ei wneud ar y Strategaeth Pobl, ac roedd y Bwrdd Pobl bellach ar waith. Croesawyd papur ar Reoli Perfformiad ac roedd ffocws parhaus ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Roedd y Rhaglen Adfywio/Renewal bellach yn cael ei harwain gan Victoria Rose-Piper ac roedd profion gweithio hybrid i gael eu cynnal. Roedd cynnydd yn cael ei wneud ar drafodaethau rota. Roedd gwaith ar leoliadau a'r rhaglen Kickstart yn mynd rhagddo. Roedd y Rhaglen Arweinyddiaeth Trawsnewid, Ymlaen, yn derbyn adolygiadau da. Adolygwyd rhai risgiau, a rhoddwyd canmoliaeth i'r Tîm Lles, Iechyd a Diogelwch am eu gwaith. Roedd hyfforddiant niwroamrywiaeth wedi'i gynnal ar gyfer aelodau'r Bwrdd. Cafwyd derbyniad da iawn i hyn, ac anogwyd pawb i gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi yn y dyfodol.

## Eitem 6: Adroddiad Chwarter 1 Cynllun Busnes a Dangosfwrdd Perfformiad

Yn bresennol: Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol; Sioni Davies, Cynghorydd, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol; Sarah Williams, Pennaeth Gweledigaeth 2050 a'r Strategaeth Gorfforaethol *(Microsoft Teams)*

9. Cyflwynodd y Prif Weithredwr drosolwg o ddiweddariad perfformiad y chwarter cyntaf, o fis Ebrill hyd at ddiwedd mis Mehefin, ynghyd â'r newyddion diweddaraf am rai o'r dangosyddion. Adroddwyd am 34 o fesurau Dangosfwrdd Perfformiad yr oedd y Bwrdd wedi cytuno arnynt. Nodwyd y statws Coch Oren Gwyrdd fel tri Coch, 10 Oren a 21 Gwyrdd. Tynnwyd sylw at dri o'r dangosyddion yn ystod y cyflwyniad.

10. Amlygwyd mesurau a oedd yn ymateb i flaenoriaethau strategol a disgrifiwyd y perfformiad fel y nodir yn y papur. Nodwyd bod 'Cyflawni'r ymchwiliadau sy'n gysylltiedig â dŵr sy'n weddill a datblygu Cynlluniau Rheoli Basn Afon wedi'u diweddaru' wedi'i raddio'n Goch. Effeithiwyd ar hyn gan y gwaith sydd ei angen ar afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Byddai'r Tîm Gweithredol yn gwneud gwaith ymchwil manwl ar hyn. Graddiwyd y cynnydd o ran lleihau llygredd o fwyngloddiau metel fel Oren. Nodwyd ei bod yn broses gymhleth a oedd yn cynnwys tua 1,500 o fwyngloddiau ledled Cymru, er bod gwaith ar hyn yn mynd rhagddo.

11. Cafodd Cynllun Ansawdd Coetiroedd y DU (UKWAS) ei raddio'n Oren ar ddiwedd Chwarter 1, fodd bynnag, rhagwelwyd sgôr Gwyrdd ar gyfer Chwarter 2 yn dilyn archwiliad llwyddiannus diweddar UKWAS. Cynigiwyd llongyfarchiadau i'r holl dimau fu'n rhan o'r gwaith. Cydnabu aelodau'r Bwrdd y canlyniad a chanmolwyd y gwaith a wnaed.

12. Trafododd aelodau'r Bwrdd y materion yn ymwneud â defnyddio tystiolaeth. Nodwyd penodiad Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth newydd. Tynnodd aelodau'r Bwrdd sylw at yr angen i sicrhau bod y tudalennau gwe ar gyfer yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) mewn fformat hygyrch ac yn destun diweddaru parhaus drwy gydol y rhaglen bum mlynedd. Gofynnwyd am linell amser o ran pryd fyddai pob un o'r cynhyrchion hyn ar gael ar y wefan. Pwysleisiwyd y berthynas rhwng canfyddiadau SoNaRR â chanlyniadau'r Adolygiad Sylfaenol.

**CAM GWEITHREDU: Llinell amser i'w darparu i aelodau'r Bwrdd ar gyfer argaeledd cynnyrch SoNaRR ar y wefan.**

13. Trafododd aelodau'r Bwrdd y mesur 'Ymateb i ddigwyddiadau categori uchel o fewn pedair awr', a raddiwyd fel Oren. Y targed oedd 95%, a nodwyd bod y perfformiad yn 93% ar gyfer Chwarter 1. Roedd aelodau'r Bwrdd yn pryderu bod y nifer uchel o staff mewn rolau Penodiad Cyfnod Penodol yn effeithio ar berfformiad yn erbyn y mesur hwn a thrafodwyd y mater hwn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol wrth y Bwrdd mai dim ond tua 10% o'r gweithlu oedd yn Benodiadau Cyfnod Penodol a bod angen mwy o waith ar y mater hwn. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol fod cyfrifoldeb cynllunio'r gweithlu wedi'i drosglwyddo i arweinwyr y sefydliad er mwyn penderfynu ar eu blaenoriaethau o fewn eu lwfans cyllideb. Gofynnwyd am nodyn ynghylch hyn ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol i ddarparu nodyn briffio i'r Bwrdd ar Benodiadau Cyfnod Penodol.**

14. Trafodwyd rhai o'r materion sy'n ymwneud â choedwigaeth a phren. Eglurwyd y broses ragweld a'r targedau ar gyfer gwerthu pren. Ystyriwyd y pwysau a'r materion gwahanol sy'n ymwneud ag ehangu gorchudd coedwigoedd yng Nghymru. Cwestiynwyd y detholiad o rywogaethau i'w plannu a chadarnhawyd bod y plannu'n seiliedig ar ofynion UKWAS. Nodwyd, mewn rhai ardaloedd, mai cael gwared ar orchudd coedwig oedd y dull cywir a bod penderfyniadau fel y rhain yn cael eu gwneud yng nghyd-destun Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Amlygwyd bod effaith clefydau coed a'r effaith ddramatig ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru a'r cyflenwad o bren o safon yn fater o bwys. Cytunwyd y byddai ymweliad safle i weld Cynllun Adnoddau Coedwigaeth yn ddefnyddiol ac y byddai hyn yn cael ei drefnu gyda'r Uwch Gynghorydd Arbenigol, Iechyd Planhigion. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am bapur cryno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd sy'n ymgorffori'r problemau sy'n ymwneud â choedwigaeth a phren a chanlyniadau'r gwaith ymchwil manwl ar bren. Cytunodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol i gynnal rhai ymweliadau lleol ar gyfer aelodau newydd y Bwrdd.

**CAM GWEITHREDU: Papur cryno ar broblemau coedwigaeth a phren i'w ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.**

**CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Gwybodaeth i gynnal ymweliadau safle lleol sy'n canolbwyntio ar goedwigaeth ar gyfer aelodau newydd y Bwrdd ac i drefnu ymweliad safle coedwig i aelodau'r Bwrdd weld Cynllun Adnoddau Coedwigaeth.**

## Eitem 7: Adroddiad Chwarter 1 Lles, Iechyd a Diogelwch

Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch (*Microsoft Teams*)

15. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol yr eitem, a darparodd y Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch drosolwg o Adroddiad Lles, Iechyd a Diogelwch Chwarter 1. Roedd y digwyddiad darnau cadwyn (chainshot) wedi'i gau, a byddai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn defnyddio'r digwyddiad fel astudiaeth achos. Amlygwyd gwybodaeth AssessNet am anafiadau beicio mynydd a, lle'r oedd anafiadau wedi'u dod i sylw canolfannau ymwelwyr, byddai'r ardal yn cael ei hasesu, ac ymchwiliadau pellach yn cael eu cynnal yn ôl yr angen. Byddai timau'n cael eu

harchwilio ym mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr o ran ISO 45001 y Sefydliad Safonau Prydeinig ar gyfer Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith.

16. Soniodd aelodau'r Bwrdd am ganlyniad cadarnhaol y cynnydd sy'n cael ei wneud ar holiaduron cyn-gymhwyso ar gyfer contractwyr a chwsmeriaid sy'n gweithio ar dir CNC.

### Eitem 8. Prosiect Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Cyflwynwyr: Steve Burton, Pennaeth Rheoli Pobl; Julia Allen, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Adnoddau Dynol (*Microsoft Teams*)

17. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol yr eitem, a oedd yn ceisio cael barn a safbwyntiau'r Bwrdd ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i gyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Roedd y papur yn cynnwys y blaenoriaethau allweddol a nodwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a byddai'r rhain yn sail i'r drafodaeth. Tynnwyd sylw at Gynllun Cydraddoldeb Hiliol drafft Llywodraeth Cymru a'r canlyniadau a'r camau gweithredu arfaethedig ynddo ar gyfer arweinwyr lefel uwch. Dechreuwyd ar y gwaith gyda Sefydliadau Anllywodraethol Amgylcheddol yng Nghymru i ddeall yn well yr hyn a allai fod yn effeithiol ar draws y sector.

18. Croesawyd yr adroddiad gan y Cadeirydd, a gwahoddodd sylwadau gan aelodau'r Bwrdd. Trafodwyd materion yn ymwneud â recriwtio yn fanwl. Cydnabuwyd y cynnydd a wnaed dros y degawdau, er enghraifft, menywod ar Fyrddau ac yn gweithio ym maes gwyddoniaeth, er bod y rhwystrau dylunio cyffredinol i gyflogaeth ac amrywiaeth hiliol yn y sector amgylcheddol yn parhau. Tynnwyd sylw at enghreifftiau o arfer da gan Maxwell Ayamba yn Sheffield. Ystyriwyd bod recriwtio yn allweddol, gan fod amrywiaeth amlwg yn y gweithlu yn debygol o gynyddu'r cyrhaeddiad o ran denu ymgeiswyr amrywiol.

19. Pwysleisiwyd pwysigrwydd ystyried cynhwysiant ar draws y sbectrwm o grwpiau economaidd-gymdeithasol ac ethnig. Byddai ymgysylltu ar draws y gymuned ehangach, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio Ystad CNC ac amrywiaeth o fewn y timau sy'n gweithio yn y cymunedau, yn bwysig. Nodwyd yr ystod o rolau sydd ar gael yn CNC a thynnwyd sylw at werth gweithwyr o gefndiroedd amrywiol ar draws y sefydliad. Cydnabuwyd hefyd bwysigrwydd estyn allan i ysgolion ac ymgysylltu â phobl ifanc. Nodwyd gwerth y rhaglen Kickstart. Tynnwyd sylw hefyd at y sesiwn ragorol ar hyfforddiant niwroamrywiaeth.

20. Mynegwyd pwysigrwydd iaith a sut y gallai hyn eithrio'n anfwriadol. Roedd hwn yn ystyriaeth allweddol nid yn unig yn ystod y broses recriwtio ond hefyd yn ystod cyflogaeth. Byddai gweithio gyda phartneriaid a dysgu gan sefydliadau eraill, nid dim ond Sefydliadau Anllywodraethol Amgylcheddol, yn bwysig.

21. Cytunwyd nad oedd unrhyw atebion cyflym i'r mater hwn gan fod prosesau cymdeithasol ehangach ar waith ond roedd aelodau'r Bwrdd yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn.

22. Ystyriodd y Prif Weithredwr y cwestiwn o'r hyn y gallai arweinwyr ei wneud a chytunodd i gynnwys nod gwrth-hiliaeth o fewn ei hamcanion. Nodwyd bod newid yn deillio o arweinyddiaeth weladwy a gweithredol, felly byddai angen i bawb feddwl am yr hyn y gellid ei wneud ynghylch hyn. Byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

**CAM GWEITHREDU: Dylid ailedrych ar rôl arweinwyr o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y cyfarfod nesaf.**

23. Cytunwyd y byddai Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, fel un o Ymddiriedolwyr Chwarae Teg, yn cefnogi llwybr lleoli i lefel Anweithredol.

**Eitem 9. Cyflawni ar y Môr a'r Arfordir a Chyflwyniad Lle**

Cyflwynwyr: Rhian Jardine, Pennaeth DPAS a Gwasanaethau Morol; Andrea Winterton, Rheolwr Gwasanaethau Morol; Pete Jordan, Rheolwr Gwasanaeth Cynghori Cynllunio Datblygu; Mary Lewis, Rheolwr Mannau Cynaliadwy Tir a Môr (*yn y cnawd*)

24. Darparodd y Rheolwr Mannau Cynaliadwy Tir a Môr gyflwyniad ar y meysydd allweddol ar gyfer cyflawni strategol. Roedd y papur yn cynnig manylion ar draws y rhaglen. Rhannwyd siart trefniadaeth y Gwasanaethau Morol. Disgrifiwyd y dull rheoli addasol a sut roedd yn cael ei ddefnyddio mewn prosiectau ynni llanw. Amlygwyd pwysigrwydd ymchwil a thystiolaeth ac esboniwyd enghraifft o'r ymchwil i storio carbon yn yr amgylchedd arfordirol. Disgrifiwyd cyflwr safleoedd gwarchodedig ac asesiadau cyflwr safleoedd dangosol a'u defnydd mewn cyngor. Roedd cynefinoedd mewn cyflwr anffafriol oherwydd ansawdd dŵr yn amlygu pwysigrwydd ansawdd dŵr o'r tarddiad i'r môr. Disgrifiwyd yr heriau sy'n ymwneud â'r Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr a phwysigrwydd cydweithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid.

25. Rhoddodd Pennaeth DPAS a Gwasanaethau Morol gyflwyniad dwyieithog a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar lawr gwlad a sut y mae'r nodau strategol yn cyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Rhannwyd astudiaeth achos ar fonitro morol. Disgrifiwyd yr her a'r gost o fonitro'r amgylchedd morol. Roedd opsiynau ar gyfer rhaglen monitro bioamrywiaeth forol integredig yn y DU yn cael eu datblygu a rhannwyd yr opsiwn y mae Cymru'n ei ffafrio, a fyddai'n golygu cynnydd sylweddol mewn monitro ond hefyd yn y costau. Roedd achos busnes wedi'i gyflwyno i Defra (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) ond roedd hyn wedi'i ohirio oherwydd COVID.

26. Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Morol drosolwg o gyllid cyfalaf Natura 2000 i wella bioamrywiaeth forol yng Nghymru yn 2020/21. Tynnwyd sylw at yr heriau o ran cyflawni o fewn un flwyddyn. Hysbyswyd aelodau'r Bwrdd am y gwaith monitro a'r offer a brynwyd a'r prosiectau gyda phartneriaid a oedd yn digwydd. Rhannwyd fideo byr yn dangos lluniau prin o faelgi yn nyfroedd Cymru. Esboniwyd sut mae pysgodfeydd cocos yn cael eu rheoli. Rhannwyd safleoedd Ynni Adnewyddadwy ar y Môr a'r heriau sy'n ymwneud â'r technolegau newydd, eu maint a'u cymhlethdod. Esboniwyd yr astudiaeth achos ym Morlais. Roedd dull rheoli addasol ar waith a rhannwyd lefel y craffu.

27. Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaeth Cynghori Cynllunio Datblygu drosolwg o'r Gwasanaeth Cynllunio Datblygu a'r prif fathau o ganiatâd. Disgrifiwyd swyddogaeth CNC fel ymgynghorai statudol i'r broses gynllunio a nifer y ceisiadau. Cynhaliwyd gwelliant parhaus ac esblygiad gan ystyried adborth cwsmeriaid. Disgrifiwyd yr ystod o waith achos a gynhaliwyd ar draws y sbectrwm o bynciau.

28. Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am gyflwyniad rhagorol a gwahoddodd drafodaeth gan y Bwrdd.

29. Croesawyd y defnydd cynyddol o dechnoleg, ond gofynnwyd cwestiynau am y posibilrwydd o rannu gwybodaeth a thystiolaeth ag eraill ac nid dim ond y rhai hynny o'r sector amgylcheddol. Cadarnhawyd bod technoleg yn cael ei defnyddio fel adnodd ychwanegol ac ystyriwyd hyd a lled y cyfleoedd. Rhannwyd tystiolaeth drwy gyhoeddi a'r cyngor sydd ar gael ar y wefan. Tynnwyd sylw at gynnwys partneriaid a gwirfoddolwyr a gynorthwyir gan grant drwy wyddoniaeth dinasyddion. Cafwyd ymgysylltu â phartneriaid

ymchwil, yn enwedig mewn meysydd lle nad oedd adnoddau CNC ar gael. Trafodwyd effaith ansawdd dŵr ar statws anffafriol cynefinoedd.

30. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd y datblygiadau mewn prosiectau ynni morol a mynegwyd pryderon rhai rhanddeiliaid ar lefel y cyfle i ymgysylltu. Nodwyd y cynnydd mawr mewn gwaith yn y maes hwn fel maes pryder posibl ac a fyddai angen staff ychwanegol i fynd i'r afael â hyn. Nodwyd bod gwaith ymchwil manwl Llywodraeth Cymru ar ynni adnewyddadwy i fod i ddigwydd cyn bo hir. Byddai angen ystyried rôl gwasanaethau dewisol a chodi tâl yng nghyd-destun yr Adolygiad Sylfaenol.

31. Trafodwyd rôl morfa heli o ran storio carbon a'i chymharu â choetiroedd. Roedd gan aelodau'r Bwrdd ddiddordeb yn y posibiliadau o garbon glas a manteision cynefinoedd morol ac arfordirol wedi'u hadfer.

32. Ystyriwyd materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch. Darparwyd enghreifftiau o'r hyfforddiant gofynnol a'r arferion gwaith arferol a oedd yn cael eu dilyn.

**- Daeth cyfarfod y Bwrdd i ben -**

## Eitem 10. Sesiwn holi ac ateb cyhoeddus

33. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan y cyhoedd.

34. Roedd Gareth Wardell wedi cyflwyno cwestiwn cyn y cyfarfod ar orlifoedd storm cyfunol ac roedd yn awyddus i sicrhau nad oedd y mater yn mynd ar goll. Ymatebodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau fod gwaith ar y pwnc yn parhau gydag Ofwat a'r cwmnïau dŵr. Darparwyd cyngor ac arweiniad ynghyd â gorfodaeth yn ôl yr angen pan oedd materion yn codi yn sgil adroddiadau neu fonitro.

35. Gofynnodd Mr Wardell gwestiwn atodol ar y materion sy'n ymwneud â gorlifoedd storm cyfunol a thrwyddedu cysylltiedig. Ymatebodd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu i gadarnhau bod gorlifoedd storm cyfunol yn cael eu hadolygu i sicrhau bod trwydded gan bob gorlif storm cyfunol a'u bod yn cael eu monitro.

36. Cytunwyd y byddai papur briffio am orlifoedd storm cyfunol yn cael ei baratoi ar gyfer Mr Wardell.

**CAM GWEITHREDU: Papur briffio i grynhoi'r gwaith parhaus ar orlifoedd storm cyfun i'w anfon at Gareth Wardell.**

**- Daeth y Cyfarfod Cyhoeddus i ben -**